PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 18 GORFFENNAF 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ebrahim, Gordon, Gavin Hill-John, Parkhill, Robson a/ac Sattar |

1 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGOR

Nododd y Pwyllgor i'r Cynghorydd Nigel Howells gael ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn a'r canlynol yn Aelodau'r Pwyllgor yng nghyfarfod y Cyngor ar 25 Mai 2017:

Y Cynghorwyr Ebrahim, Gordon, Gavin Hill-John, Parkhill, Robson, Sattar, Singh a Stubbs

2 : CYLCH GORCHWYL

Nododd y Pwyllgor y Cylch Gorchwyl:

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Stubbs.

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

5 : COFNODION

Nodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2017 a 9 Mawrth 2017 a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

6 : TREFNU RHAGLEN WAITH

Gofynwyd i Aelodau drafod a chytuno ar flaenoriaethau i Raglen Waith 2017/18 y Pwyllgor. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhestru eitemau rhaglen waith wedi ei tynnu o awgrymiadau gan Aelodau a Swyddogion, eitemau a argymhellwyd gan y Pwyllgor blaenorol ac adolygiad desg o ddogfennau corfforaethol a partneriaeth ar lefel uchel.

Derbyniodd y Pwyllgor sylwadau gan Aelodau Cabinet a Chyfarwyddwyr y daw eu portffolios o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor. Gofynodd y Cadeirydd i' Aelodau'r Cabinet danlinellu eu prif faterion a heriau ac unrhyw faes lle credent y gallai craffu eu cynorthwyo i hyrwyddo gwelliannau. Awgrymodd Aelodau Cabinet nifer o bynciau i'w cynnwys ar raglen waith y Pwyllgo, gan gynnwys:

*Cynghorydd Goodway*

- Cyflawni gorsaf fysiau
- Arena dan do

- Gorsaf reilffordd Parkway Caerdydd
- Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd
- Papur Gwyrdd ar yr agenda Datblygiad Economaidd
- Strategaeth Dwristaidd
- Adolygiad o'r Pentref Chwaraeon
- Sgwâr Canolog
- Tir i'r de o Orsaf Reilffordd Canolog Caerdydd
- Dumballs Road – ymrwymiad maniffesto i gynnig tai cyngor
- Stryd Bute/ Rhodfa Lloyd George / Llinell reilffordd Drom / atyniad twristaidd ar batrwm 'High Line' Efrog Newydd
- Sgwâr Dewi Sant
- Camlas Fwydo
- Atyniadau newydd ym Mae Caerdydd – e.e. cyfleuster traeth neu bwll awyr agored
- Strategaeth Ryngwladol
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Adeiladau Hanesyddol
- Strategaeth Cyflogaeth

*Y Cynghorydd Bradbury*

- Diogelwch mewn Parciau
- Cytundeb Hamdden GLL
- Datblygu Chwaraeon
- Strategaeth Prif Ddigwyddiadau
- Awdurdod Harbwr Caerdydd
- Cronfa Ddŵr Llanisien
- Adolygiad o Chwaraeon yn y Ddinas
- Ailwampio Parciau

*Y Cynghorydd Merry*

- Diogelu Dysgu Oedolion yn y Gymuned

*Cynghorydd Thorne*

- Safonau Llyfrgell
- Rhaglen Hybiau / Cefnogaeth ar gyfer Gwasanaethau i Mewn i Waith
- Efaith Credyd Cynhwysol / diwygiadau Lles

Rhoddodd yr adroddiad arweiniad i Aelodau parthed blaenoriaethu eitemau i'w cynnwys yn y rhaglen waith. Gofynnwyd i aelodau hefyd i fod yn ofalgar o gyngor Swyddfa Archwilio Cymru i anelu i gynnal cyfarfodydd pwyllgor craffu nad sy'n hwy na 3 awr o ran hyd drwy sicrhau fod agendâu o fewn rheswm a bod gwaith yn mynd rhagddo y tu allan i gyfarfodydd pwyllgor.

Cynghorwyd Aelodau er mwyn ateb canllawiau Swyddfa Archwilio Cymru, y dylai agendâu fod wedi eu cyfyngu i ddim mwy na dwy eitem sylweddol. Cytunodd rhaglen gyfarfodydd 2017/18 fod 9 cyfarfod i'w cynnal rhwng Medi 2017 a Mai 2018; byddai hyn yn caniatáu gofod i 18 eitem agenda sylweddol.

PENDERFYNWYD – y byddai'r eitemau a'r blaenoriaethau canlynol yn cael eu cynnwys yn Rhaglen Waith 2017/18:

- Papur Gwyrdd Datblygiad Economaidd
- Arena Dan Do Aml-bwrpas
- Pentref Chwaraeon Rhyngwladol ac Uwchgynllun Bae Caerdydd
- Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd
- Dumballs Road
- Treftadaeth ac Adeiladau Hanesyddol
- Fforwm Busnes Caerdydd
- Diweddariad ar y Bartneriaeth Rheoli Hamdden
- Cyllido Awdurdod yr Harbwr
- Chwaraeon/gweithgaredd Corfforol - Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gael ei gynllunio, i gynnwys:
    - Parciau a Mannau Gwyrddion – diogelwch, cynaliadwyedd, mynediad
    - Chwaraeon – mynediad a darpariaeth
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned – adolygiad Llywodraeth Cymru o gyllido
- Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru
- Cynigion cenedlaethol cyffredinol Cymdeithas y Prif Lyfrgellyddion
- Newid i Wasanaethau Cyflogaeth

7 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 14 Medi 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 pm